Ymddiriedolaeth Natur
Gogledd Cymru
North Wales
Wildlife Trust


PECYN CYMORTH GARDDWYR

# PROFFIL PLANHIGYN

## Cotoneaster asgwrn pysgodyn

YMLEDOL

FFEITHIAU | ID | HELPWCH | TIPIAU | MWY O BROFFILIAU



## Disgrifiad o'r rhywogaeth

**Enw gwyddonol:**
*Cotoneaster horizontalis*

**Brodorol i:**
Dwyrain Asia

Cronfa Treftadaeth
Heritage Fund

Mewn Partneriaeth â
Llywodraeth Cymru
In Partnership with
Welsh Government

Lluniau: NWWT Lisa Toth

# Ffeithiau diddorol



## Effeithiau:

Yn ymledu dros ardaloedd eang ac yn gallu gorchfygu rhywogaethau brodorol. Mae'n broblem benodol ar laswelltir calchfaen yng Ngogledd Cymru lle mae'n gorchfygu phlanhigion brodorol gan gynnwys *Cotoneaster cambricus*, sydd ond yn tyfu ar Ben y Gogarth. Gall hefyd groesi gyda phlanhigion cotoneaster eraill gan newid nodweddion y planhigyn.



## Cynefin:

Glaswelltir creigiog, cloddiau rheilffyrdd, waliau gardd, clogwyni, glaswelltir calchfaen, chwareli, pyllau sialc, palmentydd a waliau.

Llwyn collddail, sy'n tyfu'n isel ac yn lledaenu, mae'n tyfu i hyd at 90cm o uchder a 1.5m o led. Mae mwyar coch yn dilyn blodau gwyn gydag arlliw pinc yn niwedd y gwanwyn. Mae cotoneaster asgwrn pysgodyn yn ddihangwr gerddi adnabyddus. Cafodd ei gyflwyno i Brydain tua 1880 ond mae ansicrwydd ynghylch pryd y cafodd ei gofnodi gyntaf yn y gwyllt.

## Sut mae'n lledaenu:

Mae'n cael ei ledaenu gan adar sy'n bwyta'r mwyar ac yn gollwn hadau yn helaeth trwy eu baw.

BRIG

Lluniau: NWWT Lisa Toth

# Nodweddion adnabod allweddol

Canghennau fflat, gyda phatrwm saethben.





Mwyar coch o ddiwedd yr haf tan y gaeaf.

Mae dail yn troi'n goch yn yr hydref.





Canghennau noeth yn y gaeaf.


Dail gwyrdd tywyll sgleiniog bach.

BRIG

Lluniau: NWWT Lisa Toth


## Gweithredu

# Helpu i atal y lledaeniad





Dylid cael gwared ar y planhigyn drwy balu, cael gwared ar yr holl wreiddiau, gan gymryd gofal i gael gwared ar yr holl bridd gyda mwyar.



Cael gwared ar eginblanhigion drwy dynnu gyda llaw neu balu.

Peidiwch â chompostio mwyar adref, defnyddiwch gyfleusterau gwastraff gardd y cyngor.

Archwiliwch ein hawgrymiadau ar gyfer syniadau planhigion amgen.



BRIG

# Cyngor defnyddiol

## Deddfwriaeth

Mae cotoneaster asgwrn pysgodyn wedi'i restru fel rhywogaeth ymledol ar Atodlen 9 o'r Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981). Mae'n drosedd plannu neu achosi i dyfu yn y gwyllt. Dylai garddwyr gymryd mesurau i helpu atal y lledaeniad o'u gardd i'r gwyllt.

## Rhywogaethau tebyg:

Ni ddylid ei gymysgu gyda llosgddraenen (*Pyracantha coccinea*).



Celyn

## Syniadau am blanhigion amgen

### Brodorol

Celyn (*Ilex aquifolium*).

### Anfrodorol

Coeden gwins Japan nad yw'n frodorol (*Chaenomeles japonica*).



Coeden gwins Japan

BRIG

Lluniau: NWWT Lisa Toth.
Darluniau: David Setter @doodleplant a starfishonline.co.uk
Gwybodaeth wedi'i chasglu gan GB NNSS, RHS a BSBI.